Adolygiad o Gyfyngiadau'r Coronafeirws - Mawrth 11, 2021
CRYNODEB O'R ASESIAD O'R EFFAITH

Cyflwyniad

Cafodd Asesiad Effaith Cryno ei lunio ym mis Rhagfyr 2020 ar ôl cyflwyno system o Lefelau Rhybudd yng Nghymru, sydd ar gael yma. Lluniwyd Asesiad Effaith Cryno arall yn dilyn adolygiad 21 Diwrnod mis Chwefror sydd ar gael yma.

Mae canllawiau Lefelau Rhybudd ac atodiad mis Chwefror i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yma.

Nod y ddogfen hon yw cofnodi asesiad o effaith llacio'r cyfyngiadau a wnaed yn yr adolygiad ar 11 Mawrth ar wahanol ddemograffeg yn y gymdeithas yng Nghymru.

Ym mis Rhagfyr, daeth 'amrywiolyn Caint' i'r amlwg, sef y prif amrywiolyn bellach ac mae'n fwy heintus. Arweiniodd hyn at gyfyngiadau llymach ar Lefel Rhybudd 4 (ee atal y mwyafrif helaeth o ddysgwyr ym myd addysg rhag dysgu wyneb yn wyneb). Ers hynny, mae'r sefyllfa iechyd yng Nghymru wedi gwella gan alluogi rhywfaint o lacio yn adolygiad o'r cyfyngiadau ym mis Chwefror. Mae'r gwelliant wedi parhau ac wedi cael ei gynnal, gan alluogi llacio pellach yn adolygiad 11 Mawrth wrth i ni barhau i symud yn ofalus ac yn raddol at gyfyngiadau Rhybudd 3.

Dyma'r prif fesurau llacio a wnaed yn yr adolygiad 21 diwrnod ar 11 Mawrth 2021:

- Cael gwared â'r cyfyngiadau yn ymwneud â chau ysgolion o 15 Mawrth ymlaen;
- Disodli'r cyfyngiadau 'aros gartref' â rheolau 'aros yn lleol' o 13 Mawrth ymlaen;
- Caniatáu i hyd at bedwar o bobl o ddwy aelwyd wahanol (neu aelwyd estynedig os oes mwy na phedwar o bobl) gwrdd yn yr awyr agored, gan gynnwys mewn gerddi a mannau preifat yn yr awyr agored, o 13 Mawrth ymlaen;
- Caniatáu i gyfleusterau chwaraeon awyr agored (cyrtiau tenis, lawntiau bowlio, cyrsiau golff, campfeydd awyr agored ac ati) ailagor o 13 Mawrth ymlaen;
- Cynnwys ymweliadau â phreswylwyr cartrefi gofal (oedolion a phlant), fel rheswm rhesymol dros ymgynnull dan do gyda rhywun y tu allan i aelwyd neu aelwyd estynedig unigolyn o 13 Mawrth ymlaen;
- Caniatáu i drinwyr gwallt a barbwyr ailagor o 15 Mawrth ymlaen;
- Caniatáu i archfarchnadoedd a manwerthwyr cymysg werthu eitemau nad ydynt yn hanfodol o 22 Mawrth ymlaen;
- Caniatáu i ganolfannau garddio ailagor o 22 Mawrth ymlaen;
- Cael gwared ar yr angen i Weinidogion awdurdodi digwyddiadau chwaraeon elît unigol yn benodol o 13 Mawrth ymlaen;

- Caniatáu defnyddio Theatrau at ddibenion ymarfer, ni waeth a ydynt yn gysylltiedig â darllediad, o 13 Mawrth ymlaen;

Y cefndir deddfwriaethol

Daeth Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 i rym ar 26 Mawrth 2020, a chawsant eu disodli wedyn gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Rhif 3) a (Rhif 4) (Cymru) 2020. Mae modd gweld fersiwn wedi'i chydgrynhoi o'r Rheoliadau diweddaraf yma.

Mae'r Asesiad Effaith Cryno hwn yn ymwneud â'r diwygiadau a wnaed i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 o ganlyniad i'r Adolygiad o'r Cyfyngiadau ar 11 Mawrth.

Adolygu rheoliadau cyfyngiadau

Adolygir y Rheoliadau bob tair wythnos yn unol â'r wybodaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf.

Asesiadau o'r Effaith

Mae'r asesiadau o'r effaith canlynol, sy'n ymwneud â'r llacio a wnaed, i'w gweld yng ngweddill y ddogfen hon:

i. 'Aros yn lleol' a chwrdd â phobl eraill yn yr awyr agored
ii. Trinwyr gwallt a barbwyr
iii. Cyfleusterau chwaraeon awyr agored
iv. Ymweliadau dan do â chartrefi gofal

Ar ben hynny, bydd asesiad o'r effaith ar hawliau plant ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cyhoeddi ar wahân ar wefan Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ailagor ysgolion yn raddol.

ASESIAD O'R MESURAU LLACIO YN YMWNEUD AG AROS YN LLEOL A CHWRDD Â PHOBL ERAILL YN YR AWYR AGORED

Effaith ar lesiant

Mae effeithiau negyddol sylweddol yn gysylltiedig â chyfyngu ar symudiadau pobl, yn enwedig gan fod hyn yn eu hatal rhag gweld teulu a ffrindiau y tu allan i'w hardal leol.

Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru arolwg ar iechyd a llesiant (1 i 7 Mawrth 2021), a phan ofynnwyd i bobl sut roeddent yn teimlo yn ystod yr wythnos ddiwethaf, dywedodd 22% o bobl eu bod yn teimlo'n unig o bryd i'w gilydd ac roedd 16% yn teimlo'n unig drwy'r amser neu'n aml. Roedd tua 24% o bobl yn teimlo'n ynysig o

bryd i'w gilydd, gyda 25% yn dweud eu bod yn teimlo fel hyn drwy'r amser neu'n aml. Dros y cyfnod hwn, roedd 58% yn dweud eu bod yn poeni am eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Cafodd y data sydd wedi'i amlygu mewn melyn ei ddefnyddio wrth lacio'r cyfyngiadau o Aros gartref i Aros yn lleol yn 2020. Nid yw'r arolwg a oedd yn cynnwys y data wedi cael ei ddiweddaru ers mis Tachwedd 2020. Mae'n debygol bod y negeseuon allweddol isod yn berthnasol i'r llacio hwn oherwydd bod yr amgylchedd ym mis Mehefin 2020 yn edrych yn gymharol debyg i'r presennol.

Mewn dadansoddiad cyfun gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r un arolwg rhwng 13 Ebrill a 7 Mehefin 2020, nodwyd pryderon penodol am y rheini sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed yn glinigol. Roedd 25% o unigolion agored i niwed yn poeni llawer am eu hiechyd meddwl a'u llesiant (o gymharu â 14% o'r rheini sydd ddim yn agored i niwed).

Mae dadansoddiad blaenorol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru[1] o ddata ei arolygon llesiant wythnosol (yn ystod y cyfnod rhwng 10 Ebrill a 10 Mai) yn nodi canfyddiadau demograffig allweddol ar gyfer pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sy'n fwy tebygol o fod yn: hunanynysu (45% o bumed mwyaf difreintiedig y boblogaeth o'i gymharu â 31% o bumed mwyaf cefnog y boblogaeth); poeni'n fawr am eu hiechyd meddwl (30% o'i gymharu ag 17%); teimlo'n bryderus iawn (28% o'i gymharu ag 20%); a theimlo'n ynysig (29% o'i gymharu â 18%).

O ran rhyw, mae menywod yn fwy tebygol o fod: yn hunanynysu (40% o'i gymharu â 33%); yn poeni llawer am eu hiechyd meddwl (25% o'i gymharu ag 20%); yn teimlo'n bryderus iawn (28% o'i gymharu ag 20%); ac yn teimlo'n ynysig (29% o'i gymharu â 18%). Mae mwy o fenywod yn dweud bod y cyfyngiadau symud yn cael effaith negyddol ar eu cwsg. Er eu bod yn dweud eu bod yn bwyta mwy o fyrbrydau ac yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn amlach na dynion yn ystod cyfyngiadau'r coronafeirws, mae menywod hefyd yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored ac wedi bod yn siarad â ffrindiau a theulu yn amlach nag y byddent fel arfer.

Mae adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 'Coronavirus and loneliness'[2] (3 Ebrill – 3 Mai) yn ystyried sut mae'r coronafeirws wedi effeithio ar bobl sy'n byw gydag unigrwydd. Er bod hyn wedi dyddio erbyn hyn, roedd yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl ag unigrwydd cronig ac unigrwydd y cyfnod clo yn poeni mwy am effaith Covid-19 ar eu llesiant o'i gymharu â phryderon eraill. Roeddent yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n bryderus neu dan straen; yn treulio gormod o amser ar eu pen eu hunain; yn teimlo eu bod wedi diflasu; ei fod yn effeithio ar eu hiechyd meddwl; yn rhoi straen ar berthnasau personol a bod ganddynt neb i siarad â nhw am eu problemau.

Cynhyrchodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddadansoddiad hefyd ym mis Rhagfyr 2020 a oedd yn edrych ar effaith Coronafeirws ar iselder ymysg oedolion. Roedd hyn

[1] https://phw.nhs.wales/news/public-health-survey-reveals-bigger-impacts-of-novel-coronavirus-covid-19-and-restriction-measures-on-wellbeing-of-those-in-poorer-communities/
[2] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/bulletins/coronavirusandlonelinessgreatbritain/3aprilto3may2020

yn dangos bod tua un rhan o bump o oedolion yn debygol o fod yn profi rhyw fath o iselder ym mis Tachwedd 2020, sydd bron i ddwywaith y cyfraddau a adroddwyd cyn y pandemig. Roedd hefyd yn dangos bod oedolion iau, menywod, y rheini nad oeddent yn gallu fforddio costau annisgwyl a phobl anabl yn fwy tebygol o fod yn profi iselder.[3]

Tystiolaeth ychwanegol:

- Mae arolwg Hafal o 300 o oedolion yng Nghymru[4] yn awgrymu bod 73% o'r cyfranogwyr yn dweud bod y coronafeirws wedi effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl.
- Mae astudiaeth hydredol y Sefydliad Iechyd Meddwl[5] yn awgrymu bod 24% o oedolion y DU wedi teimlo'n unig oherwydd y coronafeirws ac mae'r teimladau o unigrwydd wedi mwy na dyblu ers y cyfyngiadau symud[6].

Mewnwelediadau o ddadansoddiad daearyddol o ddata dilyniant yng Nghymru

- Wrth archwilio patrymau trosglwyddo ledled Cymru, rydym yn gweld bod achosion mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth uchel (ee dinasoedd) yn fwy tebygol o ddeillio o gadwyni trosglwyddo lleol, ond mae'r rheini mewn ardaloedd llai trefol yn fwy tebygol o gael eu cario o fannau eraill ac anaml iawn y byddant yn arwain at ragor o drosglwyddo lleol.

Cipolwg ar fewnforion o Loegr i Gymru ac effaith rheolau'r cyfyngiadau symud

- Rydym wedi bod yn dadansoddi tystiolaeth ar gyfer mewnforio llinachau i Gymru, yn enwedig o Loegr. Gan ddefnyddio ffylogenetig, rydym wedi dod i gasgliad ynglŷn â tharddiad tebygol math o ffylo (is-goeden) o ddata dilyniant, ac o'r data hwn rydym wedi canfod ffracsiwn y samplau mewn wythnos epi sydd wedi dod o fewnforion newydd. Mae hyn yn dangos y gallai cyfran uchel o achosion gael eu cysylltu â mewnforion yn gynnar yn y pandemig, gyda'r nifer yn gostwng yn sylweddol ar ôl y cyfyngiadau symud.

- Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos bod cyfran yr achosion y gellid eu cysylltu â chyflwyniadau newydd wedi dechrau codi eto yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst, gan gyd-fynd â llacio'r cyfyngiadau symud ledled y DU. Mae'r arsylwad/dadansoddiad hwn hefyd yn cefnogi casgliadau'r dadansoddiad o frigiadau o achosion.

- Wrth edrych ar y sefyllfa yn ystod y don gyntaf, mae'n amlwg bod y cyfyngiadau symud wedi cael effaith sylweddol o ran lleihau mewnforion o

[3] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/coronavirusandthesocialimpactsongreatbritain/11december2020#loneliness-of-adults-experiencing-some-form-of-depression-or-anxiety
[4] https://www.hafal.org/2020/04/survey-raises-concerns-about-the-provision-of-mental-health-services-in-wales-during-the-covid-19-outbreak/
[5] https://www.mentalhealth.org.uk/our-work/research/coronavirus-mental-health-pandemic
[6] https://www.cogconsortium.uk/wp-content/uploads/2020/12/9th-December-2020-COG-UK-Report-Wales-SARS-CoV-2-Genomic-Insights-SAGE.pdf

Loegr/y tu allan i Gymru. Mae hefyd yn amlwg bod cynnydd wedi bod yn nifer y mewnforion i Gymru yn ystod yr haf.

- Gyda'i gilydd, mae'r dadansoddiadau mewnforio a daearyddol yn cyfeirio at y ffaith bod y mesurau hyn wedi helpu i leihau trosglwyddiad pellter hir yng Nghymru ac i Gymru yn ystod y cyfyngiadau symud llawn a phan oedd cyfyngiadau ar symud mewn grym yng Nghymru. Yn ein data, dros fisoedd yr haf, rydym hefyd yn gweld mwy o arwyddion o fewnforio, sy'n cyd-fynd â llacio'r cyfyngiadau symud. Mae dadansoddiadau eraill (fel y dadansoddiad ar gyfer achosion, isod) gyda'i gilydd yn awgrymu bod teithio wedi chwarae rhan mewn sbarduno achosion/llinachau newydd yng Nghymru, sydd mewn rhai achosion wedi mynd ymlaen i drosglwyddo'n helaeth yn y gymuned.

- Mae'r data genomeg yn ei gwneud yn glir bod strwythur poblogaeth bresennol SARS-CoV-2 sy'n cylchredeg yng Nghymru yn wahanol i'r hyn a welwyd ym mis Mawrth/Ebrill. Mae'r data'n cyfeirio at nifer o fewnwelediadau ynghylch effaith y cyfyngiadau symud ac effaith bosibl cyfyngiadau fel y rheol 5 milltir. Yr hyn sy'n glir o'r data hwn a data eraill yw bod llacio rheolau'r cyfyngiadau symud ym mis Gorffennaf/Awst wedi arwain at gynnydd mewn achosion, gyda'r data genomig yn awgrymu y gallai'r cynnydd yng Nghymru fod wedi cael ei yrru'n rhannol gan fewnforion o rannau eraill o'r DU a'r byd.

Effeithiau economaidd

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cynnal arolwg o fusnesau yn y DU i ddeall effaith COVID-19 ar sectorau[7]. Mae ymatebion gan 276 o fusnesau celfyddydau, adloniant a hamdden wedi cael eu cynnwys yn y don ddiwethaf cyn i'r dulliau gweithredu amrywio ledled y DU (20 Ebrill – 3 Mai 2020). O'r busnesau a gymerodd ran yn yr arolwg, dywedodd 43% fod eu trosiant wedi gostwng dros 50% yn ystod y pythefnos diwethaf. Dywedodd 20% o fusnesau yn y sector nad oedd dim wedi effeithio ar eu trosiant a dywedodd 100% o fusnesau mai'r coronafeirws oedd y rheswm pam bod eu trosiant yn wahanol i'r arfer. Dylid bod yn ofalus wrth edrych ar y data hwn gan nad yw'r ymatebion wedi'u pwysoli ar hyn o bryd ac nid yw'r data ar gael ar lefel Cymru'n unig.

I'r busnesau hynny sy'n gallu gweithredu, mae'n bosibl y byddai'r newid o aros gartref i aros yn lleol yn cael effaith gadarnhaol gan fod mwy o bobl yn gallu cael mynediad at eu gwasanaethau.

Yn gyffredinol, bydd y cyfyngiad penodol i bobl 'aros yn lleol' yn cyfyngu ar effaith economaidd y busnesau hynny sy'n gweithredu ar hyn o bryd. Bydd y cyfyngiadau hyn hefyd yn rhwystro nifer o fusnesau eraill rhag ailagor gan y byddent yn wynebu cyflenwad cyfyngedig iawn o gwsmeriaid. Er bod gan y cyfyngiadau hyn fantais uniongyrchol o ran iechyd y cyhoedd mewn perthynas ag atal trosglwyddo'r feirws yn ehangach rhwng cymunedau, mae hefyd yn cael yr effaith anuniongyrchol o orfodi ailagor yn raddol yn naturiol. Mae gan hyn fanteision iechyd cyhoeddus o ran sicrhau

[7] https://www.ons.gov.uk/economy/economicoutputandproductivity/output/datasets/businessimpactofcovid19surveybicsresults

bod busnesau'n gallu addasu, mae'n gosod cyfyngiadau ar weithgarwch economaidd.

Pan fydd cyfyngiadau aros yn lleol yn cael eu tynnu yn y dyfodol, bydd hyn yn cael effaith economaidd gadarnhaol gan y bydd yn caniatáu i garfan ehangach o gwsmeriaid ymweld â gwahanol fusnesau. Bydd hyn yn cael ei gefnogi ymhellach wrth i sectorau eraill megis y sectorau twristiaeth ac ymwelwyr agor yn ehangach dros adolygiadau yn y dyfodol.

Effeithiau ar yr amgylchedd

Gallai'r cynnydd posibl yn nifer y bobl sy'n symud gael effaith ar ansawdd yr aer wrth i bobl ddechrau teithio'n bell yng Nghymru ac i Gymru. Bydd y sefyllfa bresennol o ran iechyd a chapasiti cyfyngedig trafnidiaeth gyhoeddus yn arwain at fwy o ddefnydd o gerbydau preifat a llai o rannu ceir. Mae teithio llesol yn cael ei hyrwyddo'n weithredol, ond nid yw hyn yn debygol o fod yn ymarferol ar gyfer pellteroedd hirach. Mae swyddogion yn yr adran Amgylchedd a Materion Gwledig yn monitro'r effeithiau ar ansawdd yr aer sydd wedi codi ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud, ac mae'r cyfryngau'n adrodd ar ansawdd aer gwell. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi'r effeithiau a bydd y gwaith hwn yn llywio polisi'r dyfodol gyda golwg ar gynnal gwelliannau i ansawdd aer ar gyfer y dyfodol, cyn belled ag y bo modd.

Gallai defnyddio mwy o fannau awyr agored hefyd gael effaith gadarnhaol ar agweddau a chanfyddiadau pobl o nwyddau cyhoeddus amgylcheddol. Gallai hyn helpu i atgyfnerthu manteision mesurau amddiffyn yr amgylchedd wrth i ni symud ymlaen o'r cyfyngiadau symud dros amser. Mae perygl hefyd o gael effeithiau amgylcheddol negyddol o ganlyniad i gael gormod o bobl mewn un lle a thaflu sbwriel, sydd wedi'i weld yn ddiweddar mewn mannau yng Nghymru a llawer o ardaloedd twristiaeth poblogaidd ledled Lloegr. Mae hyn yn cael ei waethygu gan y newid i ddarparu bwyd a diod tecawê o ystyried y cyfyngiadau parhaus ar dafarndai, caffis a bwytai. Gallai negeseuon cyhoeddus ynghylch yr angen i weithredu'n gyfrifol i ddiogelu'r amgylchedd ac osgoi lleoedd gorlawn helpu i liniaru hyn ymhellach. Mae'n debyg y bydd problem barhaus gyda mwy o wastraff o fwyd a diod tecawê nes bydd y cyfyngiadau ar safleoedd cysylltiedig wedi'u llacio.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb gan ei fod yn newid y cyfyngiadau symud o 'Aros Gartref' i 'Aros yn Lleol' ac yn caniatáu i hyd at 4 o bobl o 2 aelwyd gwrdd am unrhyw reswm yn yr awyr agored, gan gynnwys mewn gerddi preifat a fydd wedi effeithio ar wahanol grwpiau mewn gwahanol ffyrdd.

Grŵp neu nodwedd warchodedig	***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?***	***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)***	***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?***

Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)	***Cadarnhaol:*** Bydd newid y cyfyngiad o 'Aros gartref' i 'Aros yn lleol', a llacio'r cyfyngiad ymhellach i ganiatáu i 4 o bobl o ddwy aelwyd gwrdd am unrhyw reswm (nid ymarfer corff yn unig) o fudd i'r rheini sydd wedi'u hynysu oddi wrth deulu a ffrindiau, gan liniaru effeithiau unigrwydd a theimlo'n ynysig neu allgáu digidol. ***Negyddol****:* Efallai y bydd pobl o bob oed yn poeni am fwy o risgiau iddynt o ganlyniad i fwy o bobl yn symud o gwmpas yn yr ardaloedd lleol a mwy o bobl yn cwrdd yn yr awyr agored.	Mae amrywiaeth o ddata arolwg yn awgrymu mai pobl iau (18-29 oed) yw'r mwyaf tebygol o boeni am eu hiechyd meddwl, a'u bod yn fwy tebygol o deimlo'n ynysig na grwpiau eraill. Mae pobl dros 70 oed yn fwy tebygol o fod yn poeni am eu hiechyd a'r risg o ddal COVID-19. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r grŵp oedran hwn wedi cael y dos cyntaf o'r brechlyn o leiaf, felly gallai hynny leddfu rhai o'r pryderon.	Bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi i amlinellu'r risgiau sy'n gysylltiedig â phobl yn teithio yn eu hardal leol ac yn cwrdd am unrhyw reswm, gan gynnwys cwrdd mewn gerddi preifat (hyd at 4 o bobl o 2 aelwyd), a sut orau i ddiogelu yn erbyn trosglwyddo'r feirws (cadw pellter cymdeithasol). Canllawiau parhaus i'r rheini sy'n gwarchod i sicrhau bod risgiau ychwanegol yn cael eu hystyried pan fyddant yn yr awyr agored.
Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)	***Cadarnhaol***: ar gyfer pobl anabl nad oes angen iddynt gael gafael ar ddarpariaeth o dan gymorth a gofal, byddant yn gallu teithio yn eu hardal leol a chwrdd yn gymdeithasol â ffrindiau a theulu. ***Negyddol***: Gall cael mynediad i ardaloedd hygyrch i gwrdd ag eraill mewn ardal leol fod yn broblem i rai pobl anabl.	Mae ein rheolau eisoes yn caniatáu i bobl anabl (gan gynnwys plant anabl) gael gafael ar gymorth a gofal gan ffrindiau a theulu. Felly, gallai pobl anabl gyfarfod yn barod. Mae ein rheolau eisoes yn caniatáu i bobl anabl neu bobl sydd â salwch corfforol neu feddyliol neu nam i deithio o'u cartref er mwyn gallu gwneud ymarfer corff. Er enghraifft, efallai na fydd rhai defnyddwyr cadair olwyn yn gallu dechrau gwneud	Nid oes unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol yn cael eu cynnig

		ymarfer corff yn syth y tu allan i'w cartrefi am resymau mynediad ymarferol, ac efallai y bydd angen iddynt yrru i leoliad fflat addas, megis parc, at y diben hwn. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai'r daith fod i'r lleoliad hygyrch cyfleus agosaf, ac ni ddylid gwneud unrhyw deithiau hir oni bai fod hynny'n gwbl angenrheidiol.	
Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl trawsryweddol)	***Cadarnhaol:*** Mae'n bosibl bod y cyfyngiadau ar deithio a chwrdd ag aelwydydd eraill sy'n effeithio'n anghymesur ar lesiant wedi cyfyngu ar y gallu i gael mynediad at rwydweithiau cymorth.	*Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol*	*Amh*
Beichiogrwydd a mamolaeth	***Cadarnhaol:*** Mae'n bosibl bod y cyfyngiadau ar deithio a chwrdd ag aelwydydd eraill wedi cael effaith ar unigrwydd, teimlo'n ynysig neu'r gallu i gael mynediad at rwydweithiau cymorth.	*Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol*	*Amh*
Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)	***Cadarnhaol:*** Dim manteision penodol ar wahân i'r rheini i bawb fod yn gallu gweld teulu a ffrindiau a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ardal leol.	Amrywiaeth o dystiolaeth wahanol ar yr effaith anghymesur ar y gymuned BAME (ee y Swyddfa Ystadegau Gwladol, grŵp cynghori BAME Llywodraeth Cymru)	Gweithgareddau cyfathrebu cyffredinol ar y risgiau i grwpiau gwahanol a'r angen parhaus i bawb barhau i ddilyn canllawiau fel cadw pellter cymdeithasol a sicrhau hylendid da.

	***Negyddol**:* Mae'n hysbys bod unigolion BAME yn wynebu mwy o risg yn sgil effeithiau'r coronafeirws ac fe allent fod yn fwy pryderus ynghylch llacio'r cyfyngiadau.		
Crefydd, cred a diffyg cred	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	*Amh*	*Amh*
Rhyw/ Rhywedd	***Cadarnhaol:*** Mae'n ymddangos bod y cyfyngiadau'n effeithio ar wahanol rywiau mewn gwahanol ffyrdd, a gellid lliniaru hyn drwy lacio'r cyfyngiadau.	Mae arolygon yn dangos bod menywod yn fwy tebygol o fod yn hunanynysu, o boeni'n fawr am eu hiechyd meddwl, o deimlo'n bryderus ac o deimlo'n ynysig. Mae mwy o fenywod yn dweud bod y cyfyngiadau symud yn cael effaith negyddol ar eu cwsg.	Nid oes unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol yn cael eu cynnig.
Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol	*Amh*	*Amh*
Priodas a phartneriaeth sifil	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	Roedd pobl a oedd yn briod neu'n cyd-fyw yn llai tebygol na'r cyfartaledd o deimlo'n unig (unigrwydd y 'cyfnod clo' a chronig) (arolwg barn a ffordd o fyw ONS, Mai 20).	*Amh*
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	***Cadarnhaol:*** Bydd plant yn gallu cwrdd â theulu a ffrindiau y tu hwnt i'w hardal leol.	Y ddau brif fater i blant (12-18 oed) o ran cyfyngiadau yw 'peidio â gallu treulio amser gyda ffrindiau' (72%) a 'peidio â gallu ymweld ag aelodau o'r teulu' (59%)	*Amh*

		(arolwg Coronafeirws a Fi).	
Aelwydydd incwm isel	***Cadarnhaol:*** Efallai y bydd rhai manteision o deithio i weld teulu a ffrindiau yn yr awyr agored i liniaru effeithiau unigrwydd a theimlo'n ynysig lle nad yw hyn yn bosibl yn lleol.	*Arolwg Llesiant lechyd Cyhoeddus Cymru*: mae'r rheini sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn hunanynysu ac o deimlo'n bryderus ac ynysig yn ystod cyfyngiadau'r coronafeirws, yn ogystal â bod yn fwy pryderus am eu hiechyd meddwl.	*Amh*

Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i gynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Er gwaethaf y cyfyngiadau parhaus ar y cyfyngiadau symud yn gyffredinol, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

Hawliau Dynol	***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?***	***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)***	***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?***
Yr hawl i fwynhau perthnasau teuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (ee yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gael cyswllt rheolaidd)	***Cadarnhaol***: bydd cael gwared ar 'aros gartref' a chwrdd â chyfyngiadau eraill yn yr awyr agored yn hwyluso perthnasoedd teuluol drwy gyfyngu ar y cyfyngiadau a osodir gan y llywodraeth. Mae'r cyfyngiadau sy'n dal yn eu lle o ran bod dan do a nifer yr aelwydydd yn parhau i fod yn gymesur	Roedd y cyfyngiadau'n seiliedig ar resymau iechyd y cyhoedd ac mae'r broses asesu ac adolygu'n ceisio dileu'r rhain cyn gynted â nad ydynt yn gymesur mwyach. Mae'r broses hon wedi arwain at y cynnig i godi'r cyfyngiad hwn.	Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig.

	ar sail iechyd y cyhoedd.		

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Mae'r cyfyngiadau ar symud ac ymgynnull yn gwrthdaro â'r Erthyglau canlynol:

- Erthygl 15 – Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac ymuno gyda grwpiau a sefydliadau, cyn belled â bod hynny ddim yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

- Erthygl 31 – Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

Bydd llacio'r cyfyngiadau i ganiatáu cyfarfod yn yr awyr agored y tu hwnt i'r ardal leol yn lliniaru'r cyfyngiadau sylweddol ar blant yn cwrdd ac yn gallu ymlacio a chwarae. Bydd yr hawliau hyn yn dal i gael eu cyfyngu gan yr angen i atal y feirws rhag lledaenu a diogelu iechyd y cyhoedd (ee cadw pellter corfforol parhaus, dwy aelwyd yn unig yn cwrdd yn yr awyr agored, a meysydd chwarae yn parhau i fod ar gau).

Mae'r arolwg Coronafeirws a Fi o 23,700 o blant yng Nghymru yn sicrhau bod safbwyntiau plant yn sail i ddewisiadau polisi (Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd yn eu barn nhw, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a bod eu barn yn cael ei hystyried). Mae'r arolwg wedi canfod mai'r ddwy reol aros gartref sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar sut mae pobl ifanc (12-18 oed) yn teimlo yw 'peidio â gallu treulio amser gyda ffrindiau' (72%) a 'peidio â gallu ymweld ag aelodau'r teulu' (59%). I lawer, mae wedi bod yn bleser treulio mwy o amser gyda'r teulu, dysgu sgiliau newydd a mwynhau'r awyr agored mewn gerddi ac wrth ymarfer corff dyddiol.
I rai, mae'r cyfnod hwn hefyd wedi dod â rhyddhad o bwysau cymdeithasol ac iechyd blaenorol fel anawsterau iechyd meddwl neu fwlio.

Effaith ar y Gymraeg

Ni chanfuwyd bod y cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg. Yn gyffredinol, gallai'r gallu i gwrdd ag aelwyd arall y tu allan i'r ardal leol gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg. Bydd hyn yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gwrdd â siaradwyr Cymraeg eraill ledled Cymru a thu hwnt. Nid yw'r cynnig hwn yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg. Efallai y bydd siaradwyr Cymraeg yn gallu teithio ymhellach i gael mynediad at wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg os nad ydynt ar gael yn eu hardal leol, a allai fod wedi cael eu hatal o dan y darpariaethau 'aros yn lleol'.

ASESIAD O'R MESURAU LLACIO YN YMWNEUD Â THRINWYR GWALLT A BARBWYR

Effaith ar lesiant

Mae tystiolaeth yr arolwg yn rhoi ciplun o lesiant meddyliol ledled Cymru wrth i'r cyfyngiadau barhau. Roedd *Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau'r Coronafeirws* Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer wythnos 15 i 21 Chwefror yn dangos bod 33% yn dweud bod eu hiechyd meddwl ychydig yn waeth o'i gymharu â blwyddyn yn ôl, a dywedodd 15% arall ei fod yn llawer gwaeth. Fe wnaeth yr elusen iechyd meddwl Mind gyhoeddi tystiolaeth o arolwg yn ddiweddar, a oedd yn awgrymu bod iechyd meddwl dros hanner yr oedolion a'r bobl ifanc yn y DU wedi dirywio ers i'r cyfyngiadau symud fod mewn grym, gyda'r effaith waethaf ar bobl ifanc.[8]

Mae wedi'i sefydlu bod diweithdra'n gysylltiedig â lefelau llesiant isel ac iechyd sy'n dirywio. Bydd mwy a mwy o bobl sy'n ymuno â'r farchnad lafur yn teimlo effeithiau andwyol pe baent yn ymuno â'r farchnad lafur yn ystod dirywiad economaidd. Mae tystiolaeth academaidd y gall profiadau niweidiol yn y farchnad lafur mewn dirwasgiad gael effeithiau gydol oes ar yr economi, iechyd, llesiant a hyd yn oed disgwyliad oes pobl ifanc.[9]

Effeithiau economaidd

<u>Effeithiau economaidd cyffredinol</u>

Yn 2018, roedd yr holl sector *Gwasanaethau Personol Eraill* yn cyfrannu £800 miliwn o werth ychwanegol gros (GVA) i economi Cymru, a oedd gyfwerth â 1.2% o gyfanswm y GVA ar gyfer yr un flwyddyn.

Yn anffodus, nid yw'r data o Arolwg Effaith Covid-19 ar Fusnesau y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i ddadansoddi ar lefel sy'n ein galluogi ni i weld yr effaith fras ar wasanaethau cyswllt agos. Fodd bynnag, o ystyried y cyfyngiadau ar y sector a'i nodweddion (lle mae cyswllt personol agos yn angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaeth) mae'n debygol o fod ymysg y rhai sy'n dioddef fwyaf, ynghyd â'r sectorau *lletygarwch* a'r *celfyddydau, adloniant a hamdden.* Yn nhon rhif 6 yr Arolwg o Effeithiau Covid-19 ar Fusnesau ar gyfer y DU gyfan,[10] tua thraean o'r busnesau yn y ddau sector yma sydd wedi nodi eu bod yn parhau i fasnachu. Ar gyfer pob sector arall, mae o leiaf 4 o bob 5 cwmni wedi nodi eu bod yn parhau i fasnachu. Yn ôl y disgwyl, y ddau sector yma sydd wedi nodi'r gostyngiadau mwyaf yn nhrosiant y busnesau hefyd, gyda dau draean o'r busnesau yn y ddau sector yn nodi bod eu trosiant wedi gostwng mwy na 50%.

[8] Mind (2020) The mental health emergency: How has the coronavirus pandemic impacted our mental health?
[9] Darllenwch: https://voxeu.org/article/impact-covid-19-chronic-health-uk
[10] Yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 18 Mai a 31 Mai. Roedd canran y busnesau yn y DU a ddywedodd eu bod yn parhau i fasnachu yn 34% ar gyfer y sector Llety a Gwasanaethau Bwyd a 30% ar gyfer y sector Celfyddydau, Adloniant a Hamdden.

Natur llawer o'r busnesau sy'n gweithredu yn y sector gwasanaethau cyswllt agos yw bod llawer o'r galw (a'r refeniw cysylltiedig) a gollwyd ers i'r cyfyngiadau gael eu rhoi ar waith yn annhebygol o gael ei adfer yn ystyrlon. Mae'r busnes a gollwyd yn y sector hwn yn annhebygol o gynyddu a chael ei ryddhau (galw wedi cronni) mewn ffyrdd y mae modd eu rhagweld ar gyfer sectorau eraill sy'n gwerthu nwyddau a/neu wasanaethau.

Cyflogaeth ac Effaith ar Incwm

Mae llawer o gwmnïau'n defnyddio Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) Llywodraeth y DU i roi staff ar ffyrlo neu fathau eraill o gymorth. Mae'r CJRS yn sicrhau, petai gweithwyr yn cael eu rhoi ar ffyrlo, y byddai Llywodraeth y DU yn gwarantu 80% o'u hincwm cyflogedig arferol (gyda chyflogwyr yn cael ychwanegu at y cyflog yn ôl eu disgresiwn). Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu parhau â'r cynllun tan 30 Medi.

Mae data arolygon rhwng 26 Chwefror a 1 Mawrth yn dangos bod dros un rhan o bump o'r rheini sy'n gweithio yng Nghymru wedi dweud eu bod eu horiau gwaith wedi cael eu cwtogi, gyda chyfran debyg yn dweud bod eu cyflogau wedi cael eu gostwng. Mae tystiolaeth ychwanegol o arolygon yn awgrymu bod 23% o bobl mewn sefyllfa waeth yn ariannol o ganlyniad i'r coronafeirws, ac mae 15% yn dweud eu bod mewn sefyllfa well.[11] Mae pryderon wedi cael eu codi ynglŷn ag effaith niweidiol y coronafeirws ar gyllid aelwydydd tlotach, yn enwedig rheini lle mae eu haelodau'n gweithio mewn sectorau sydd wedi cau. Mae'r aelwydydd hyn yn llai tebygol o allu lleihau eu gwariant yn sylweddol o ganlyniad i'r coronafeirws nag aelwydydd mwy cyfoethog, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o fod yn ariannu eu gwariant yn ystod y cyfyngiadau symud drwy ddefnyddio cynilion (a all fod yn gyfyngedig) a'u bod felly'n cronni dyledion.[12]

Disgwylir y bydd cau gwasanaethau cyswllt agos wedi cael effeithiau dosbarthiadol negyddol gan fod y sector yn un sy'n cyflogi mwy o fenywod, pobl ifanc ac unigolion o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae llawer o'r gweithwyr yn y sector hwn ymysg y rhai sydd ar y cyflogau isaf yng Nghymru ac amcangyfrifir bod y cyflog canolrifol yn tua £9 (gweler yr adran ar effeithiau cydraddoldeb isod am ragor o fanylion). I'r rheini sydd ar ffyrlo, mae'n debygol felly bod eu hincwm wedi cael ei ostwng i lefelau o dan isafswm cyflog a chyflog byw cenedlaethol y DU i bob pwrpas[13].

Hyder defnyddwyr

Os bydd gwasanaethau cyswllt agos yn gallu ailddechrau, mae disgwyl y bydd y sector yn gweld gostyngiad sylweddol yn y galw o'i gymharu â'r lefelau a welodd cyn

[11] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2020) Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau'r Coronafeirws: Wythnos 46; 15 i 21 Chwefror 2020.

[12] Bangham & Leslie (2020) Rainy days: An audit of household wealth and the initial effects of the coronavirus crisis on saving and spending in Great Britain. Resolution Foundation.

[13] Mae Cyflog Byw Cenedlaethol y DU o Ebrill 2020 ymlaen yn £8.72 i'r rheini sydd dros 25 oed. Mae Isafswm Cyflog Cenedlaethol y DU yn £8.20 i bobl 21-24 oed, £6.45 i bobl 18-20 oed, £4.55 i bobl ifanc dan 18 oed, a £4.15 i brentisiaid.

yr argyfwng.

Effeithiau ar yr amgylchedd

Er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo teithio llesol fel dewis yn lle mathau eraill o deithio yn ystod pandemig y coronafeirws a thu hwnt, mae'n debygol y bydd agor y sector yn ehangu'r rhesymau i aelodau'r cyhoedd deithio mewn cerbyd preifat (yn enwedig felly oherwydd cyfyngiadau ar gapasiti trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol). Er nad oes rhagolygon ar gael ynglŷn â'r effaith ganlyniadol ar ansawdd aer, disgwylir y bydd yn cael effaith negyddol o'i chymharu â'r misoedd diwethaf, lle credwyd bod ansawdd yr aer wedi gwella. Am y rheswm hwn, mae swyddogion yn yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn monitro'r effeithiau ar ansawdd yr aer sydd wedi codi ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi'r effeithiau a bydd y gwaith hwn yn llywio polisi'r dyfodol gyda golwg ar gynnal gwelliannau i ansawdd aer ar gyfer y dyfodol, cyn belled ag y bo modd.

Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Mae'r cyfyngiadau ar y sector hwn wedi cael effaith anghymesur ar aelodau ifanc, benywaidd a BAME o'r gweithlu, sydd â mwy o gynrychiolaeth yn y diwydiant gwasanaethau cyswllt agos.

Grŵp neu nodwedd warchodedig	***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?***	***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)***	***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?***
Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)	***Cadarnhaol:*** *Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yr aelodau ieuengaf o'r gweithlu wedi'u cynrychioli'n anghymesur yn y sector ac felly bod y cyfyngiadau cyfredol yn fwy tebygol o effeithio arnynt. Felly, mae caniatáu i fusnesau'r sector hwn ailagor yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol o ran tegwch, yn enwedig gan ystyried bod nifer yn y grŵp hwn ymysg y rheini y mae dirywiadau economaidd wedi effeithio arnynt waethaf yn hanesyddol.* ***Negyddol****: Mae'r risgiau o ganlyniadau iechyd negyddol yn sgil dal Covid-19 yn cynyddu ag oedran. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector.*	*Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn dangos bod 21% o weithwyr mewn gwasanaethau cyswllt agos yng Nghymru o dan 25 oed (a dim ond 12% o'r gweithlu mae'r grŵp oedran hwn yn ei gynrychioli). Mae pobl rhwng 25 a 34 oed yn cynrychioli 35% o'r rheini sy'n gweithio yn y sector (sydd eto'n uwch na chynrychiolaeth y garfan oedran hon yn y gweithlu, sef 22%).*	*Mae'r mesurau lliniaru y gofynnwyd i'r sector eu rhoi ar waith, a'r gofyniad iddynt ailagor yn gyfyngedig i ddechrau, wedi'u hanelu at leihau'r risg o drosglwyddiad i bob grŵp; cwsmeriaid a staff.* *Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae gofyn i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol.*

Grŵp neu nodwedd warchodedig	***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?***	***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)***	***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?***
Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	*Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu nad oes cynrychiolaeth anghyfrannol o bobl anabl yn y sector hwn yng Nghymru, gyda 15% o'r gweithlu yn cael eu hystyried yn anabl (sydd yr un fath â'u cynrychiolaeth yn y gweithlu ehangach).*	Amh
Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl trawsryweddol)	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	*Amh*	*Amh*
Beichiogrwydd a mamolaeth	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	*Amh*	*Amh*

Grŵp neu nodwedd warchodedig	***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?***	***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)***	***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?***
Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)	***Cadarnhaol:*** *Mae tystiolaeth yn awgrymu bod pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu wedi'u cynrychioli'n anghymesur yn y sector ac felly bod y cyfyngiadau cyfredol yn fwy tebygol o effeithio arnynt. Felly, mae caniatáu i fusnesau'r sector hwn ailagor yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol o ran tegwch.* ***Negyddol****: Mae'n bosibl bod pobl BAME yn wynebu risg anghymesur o ganlyniadau iechyd negyddol pe baent yn dal Covid-19. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector.*	*Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 13% o weithwyr mewn gwasanaethau cyswllt agos yng Nghymru yn bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (a dim ond 5% o'r gweithlu yng Nghymru mae'r grŵp hwn yn ei gynrychioli).*	*Mae'r mesurau lliniaru y gofynnwyd i'r sector eu rhoi ar waith, a'r gofyniad iddynt ailagor yn gyfyngedig i ddechrau, wedi'u hanelu at leihau'r risg o drosglwyddiad i bob grŵp; cwsmeriaid a staff.* *Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae gofyn i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol.*
Crefydd, cred a diffyg cred	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	*Amh*	*Amh*

Grŵp neu nodwedd warchodedig	***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?***	***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)***	***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?***
Rhyw / Rhywedd	***Cadarnhaol:*** *Mae tystiolaeth yn awgrymu bod menywod wedi'u cynrychioli'n anghymesur yn y sector ac felly mae'r cyfyngiadau cyfredol yn fwy tebygol o effeithio arnynt. Felly, mae caniatáu i fusnesau'r sector hwn ailagor yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol o ran tegwch.*	*Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 79% o weithwyr mewn gwasanaethau cyswllt agos yng Nghymru yn fenywod, er mai dim ond 47% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru mae menywod yn ei gynrychioli.*	*Heb ganfod effaith negyddol.*
Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	*Amh*	*Amh*
Priodas a phartneriaeth sifil	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	*Amh*	*Amh*
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	***Negyddol****: Mae'n bosibl y bydd gan oedolion sy'n gweithio yn y sector Gwasanaethau Cyswllt Agos gyfrifoldebau gofal plant, oherwydd bydd y sector ar fin agor 5 diwrnod cyn i'r ysgolion gau am wyliau'r haf (ond mae estyniad ar gael yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Lleol). Mae'n bosibl bod y cyfyngiadau symud cyfredol wedi amharu ar fathau traddodiadol o ofal plant.*	*Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2018 yn awgrymu bod gan 4,600 o'r oedolion sy'n gweithio yn y sector Gwasanaethau Cyswllt Agos blant o dan 16 oed.*	*Mae Llywodraeth Cymru wedi llacio'r cyfyngiadau ar y sector gofal plant gyda'r bwriad o leddfu'r pwysau ar deuluoedd lle gallai fod angen i'r oedolion ddychwelyd i safleoedd ffisegol i weithio.*

Grŵp neu nodwedd warchodedig	***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?***	***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)***	***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?***
Aelwydydd incwm isel	***Cadarnhaol:*** *Drwy ganiatáu i aelodau o'r sector hwn ddychwelyd i weithio, gallai hynny leihau colledion swyddi a chynyddu incwm aelwydydd i'r rheini a ddaw o'r aelwydydd tlotaf.*	*Mae data dros dro o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn darparu amcangyfrifon ar gyfer cyflog gros fesul awr a fesul wythnos, yn ôl codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2 ddigid yng Nghymru (2020). Ar gyfer Gwasanaethau Personol Eraill (cod SIC 96), y cyflog gros canolrifol yr awr oedd £8.76 – £3.66 yn is na chanolrif Cymru ar gyfer holl swyddi gweithwyr, sef £12.42. O ran cyflog gros yr wythnos yn y sector hwn, £246 yw'r canolrif – tua £194 yn is na chanolrif Cymru.* *Gan ddefnyddio'r un data, amcangyfrifir bod o leiaf 70% o weithwyr Gwasanaethau Personol Eraill yn cael cyflog gros is yr awr na chanolrif Cymru.*	*Heb ganfod effeithiau negyddol.*

Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i gynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Er gwaethaf y cyfyngiadau parhaus ar y cyfyngiadau symud yn gyffredinol, gallai'r cynnig hwn effeithio ar y canlynol:

Hawliau Dynol	***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?***	***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)***	***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?***
Mae Erthygl 11 o'r ***Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol*** *yn cydnabod hawl pawb i gael safon byw ddigonol ar ei gyfer ei hun a'i deulu, gan gynnwys cartref a digon o fwyd a dillad, ac i sicrhau bod ei amodau byw yn gwella'n barhaus.*	***Cadarnhaol****: bydd caniatáu i wasanaethau cyswllt agos ailagor yn golygu bod llawer o weithwyr yn y sector – a allent fod yn ennill llai na'r Isafswm Cyflog a'r Cyflog Byw Cenedlaethol oherwydd eu bod yn cael 80% o'r cyflog roeddent yn ei gael cyn yr argyfwng – yn dychwelyd i'r gwaith.*	*Mae data incwm ar gyfer yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn dangos bod gweithwyr yn y sector hwn yn ennill llai na'r cyflog cyfartalog (canolrif) yng Nghymru a bod llawer ohonynt yn debygol o fod yn ennill llai na'r Isafswm Cyflog/Cyflog Byw Cenedlaethol oherwydd eu bod ar ffyrlo.*	*Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig.*

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Dylai agor y sector gael effaith gadarnhaol yn gyffredinol o ran incwm rhieni:

- **Erthygl 18** – Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni drwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.
- **Erthygl 27** – Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ymateb i'w hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio i ddarparu hyn.

Y Gymraeg

Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol o bwys ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal ac i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru ei hun i gael miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a nodir yn 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg', yn pwysleisio pa mor bwysig yw hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg, yn ogystal â chynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae ail thema Cymraeg 2050, sef Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg, yn nodi: *"Mae angen cyfleoedd ar bobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrediad o sefyllfaoedd sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn eu ffordd o fyw. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd ar lefel y teulu, yn y gweithle, wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol, neu fel aelodau o rwydweithiau a chymunedau diddordeb ehangach a all fod ar wasgar ym mhedwar ban byd".* Gallai ailagor y sector hwn gynnig cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg.

ASESIAD O'R MESURAU LLACIO YN YMWNEUD Â CHYFLEUSTERAU CHWARAEON AWYR AGORED

Effaith ar lesiant

Bydd plant ac oedolion yn elwa o gael mwy o fynediad at gyfleusterau chwaraeon awyr agored, yn enwedig y rheini sydd heb fynediad at erddi neu fannau mawr i chwarae neu i wneud ymarfer corff. Mae cyfleusterau chwaraeon awyr agored yn ased cymunedol gwerthfawr ac mae sicrhau eu bod ar gael yn darparu manteision iechyd corfforol a meddyliol pwysig.

Bydd ailagor atyniadau'n cyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at lesiant gan gael effeithiau cadarnhaol ar yr economi, cyfoethogi diwylliannol a chymdeithasol ac iechyd.

Effeithiau economaidd

Mae cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn arwain at elw hael ar fuddsoddiad o ran manteision canlyniadol i ffordd iach ac egnïol o fyw. Mae plant yn chwarae a phobl yn gwneud ymarfer corff yn rheolaidd yn yr awyr agored yn lleihau eu dibyniaeth ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yn lleihau lefelau salwch ac yn cynyddu cynhyrchiant. Mae cymryd rhan mewn chwaraeon a gwneud ymarfer corff yn yr awyr agored yn y gymuned leol yn cyfrannu at Gymru sy'n fwy gwyrdd.

Effeithiau ar yr amgylchedd

Mae'r effeithiau amgylcheddol sy'n deillio o ganiatáu i bobl gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol dan do yn debygol o fod yn isel iawn o ystyried nad yw'r rhan fwyaf o weithgareddau'n gysylltiedig â thechnoleg sy'n cyfrannu at allyriadau. Bydd cyfleusterau'n cael eu defnyddio'n bennaf yn lleol, heb unrhyw gynnydd sylweddol yn yr allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio i ddefnyddio cyfleusterau.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Gallai llacio cyfyngiadau ar gyfleusterau chwaraeon awyr agored fod yn fuddiol i blant ac oedolion o gefndir economaidd-gymdeithasol is – amcangyfrifir eu bod yn gwneud llai o ymarfer corff ers i'r cyfyngiadau ddod i rym. Bydd ailagor cyfleusterau chwaraeon awyr agored yn rhoi mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gwahanol.

Grŵp neu nodwedd warchodedig	***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?***	***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)***	***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?***
Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)	**Cadarnhaol:** Bydd ailagor rhagor o gyfleusterau awyr agored yn cynnig mwy o gyfleoedd i bobl o bob oed wneud ymarfer corff.	Mae'r dystiolaeth a nodir uchod ar lesiant ac effeithiau economaidd yn tynnu sylw at yr amcangyfrif o gynrychiolaeth y grŵp hwn.	Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull cydweithredol o ddatblygu canllawiau ar ailagor sectorau/gwasanaethau/cyfleusterau, a hynny gyda rhanddeiliaid a diwydiannau. Felly, mae canllawiau cynhwysfawr ar roi'r mesurau ar waith yn ddiogel ar gael i'r meysydd hynny lle mae'r cyfyngiadau wedi'u llacio, ac ar gyfer safleoedd/gweithgareddau eraill wrth i baratoadau gael eu gwneud ar gyfer eu hailagor.
Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)	**Cadarnhaol:** Wrth i ragor o gyfleusterau ailagor, dylai pobl anabl elwa ar allu defnyddio amrywiaeth ehangach o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gwneud ymarfer corff. Bydd hyn yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig, ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol.		Mae "Chwaraeon a hamdden: canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol" Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai sefydliadau ystyried hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig o ran cael gafael ar leoliadau neu wasanaethau.

Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl trawsryweddol)	Nid yw'n debygol o gael effaith.	Dim digon o ddata ar gael i gynhyrchu asesiad iawn Wrth i ragor o adeiladau agor, dylai pobl elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor o fynediad at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol.	Amh
Beichiogrwydd a mamolaeth	**Cadarnhaol:** Bydd ailagor rhagor o fusnesau, fel atyniadau dan do i dwristiaid, hefyd yn darparu amrywiaeth ehangach o weithgareddau y bydd mamau/gofalwyr yn gallu eu mwynhau gyda phlant ifanc o bosibl.	Wrth i ragor o safleoedd agor, byddant yn elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor	Mae "Chwaraeon a hamdden: canllawiau ar gyfer dychwelyd yn ddiogel" Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai sefydliadau ystyried hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig o ran cael gafael ar leoliadau neu wasanaethau. Mae'r canllawiau'n awgrymu bod sefydliadau'n cyfathrebu'n glir ac yn rheolaidd gydag aelodau a chyfranogwyr, gan nodi'r hyn y maent yn ei wneud i reoli risg a pha gyngor y maent yn ei roi i unigolion i wneud yr un fath. Cynghorir sefydliadau i gyhoeddi cynllun gweithredu sy'n rhoi manylion eu cynlluniau i ailagor yn ddiogel a'r camau y maent yn eu cymryd i osgoi a lleihau'r posibilrwydd o

		o fynediad at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol.	drosglwyddo'r feirws. Fe'u hanogir i ystyried canllawiau cynhwysol ar gyfer pobl sydd angen cefnogaeth i fod yn egnïol. Mae'r canllawiau'n atgoffa sefydliadau o'r gofyniad cyfreithiol y bydd pob cam rhesymol wedi'i gymryd er mwyn lleihau trosglwyddiad y Coronafeirws yn y gweithle, ac mae'n cyfeirio at ganllawiau Llywodraeth Cymru i gyflogwyr a gweithwyr ar gadw'n ddiogel yn y gweithle. Er enghraifft, mae'r canllawiau'n cynghori sefydliadau bod yn rhaid iddynt arddangos yr arwyddion priodol sy'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, a bod mesurau priodol eraill ar waith ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig, er mwyn hwyluso cadw pellter corfforol bob amser yn y cyfleuster ac yn y maes parcio.
Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)	**Cadarnhaol:** Wrth i ragor o gyfleusterau ailagor, dylai pawb elwa ar allu defnyddio amrywiaeth ehangach o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gwneud ymarfer corff. Bydd hyn yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig, ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol.	Wrth i ragor o safleoedd agor, byddant yn elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor o fynediad at gymorth; ac yn hyrwyddo	Mae "Chwaraeon a hamdden: canllawiau ar gyfer dychwelyd yn ddiogel" Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai sefydliadau ystyried hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig o ran cael gafael ar leoliadau neu wasanaethau. Mae'r canllawiau'n awgrymu bod sefydliadau'n cyfathrebu'n glir ac yn rheolaidd gydag aelodau a chyfranogwyr, gan nodi'r hyn y maent yn ei wneud i reoli risg a pha gyngor y maent yn ei roi i unigolion i wneud yr un fath. Cynghorir sefydliadau i gyhoeddi cynllun gweithredu sy'n rhoi manylion eu cynlluniau i ailagor yn ddiogel a'r camau y maent yn eu cymryd i osgoi a lleihau'r posibilrwydd o drosglwyddo. Fe'u hanogir i ystyried canllawiau cynhwysol ar gyfer pobl

		llesiant yn gyffredinol.	sydd angen cefnogaeth i fod yn egnïol. Mae'r canllawiau'n atgoffa sefydliadau o'r gofyniad cyfreithiol y bydd pob cam rhesymol wedi'i gymryd er mwyn lleihau trosglwyddiad y Coronafeirws yn y gweithle, ac mae'n cyfeirio at ganllawiau Llywodraeth Cymru i gyflogwyr a gweithwyr ar gadw'n ddiogel yn y gweithle. Er enghraifft, mae'r canllawiau'n cynghori sefydliadau bod yn rhaid iddynt gael mesurau priodol ar waith ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig, er mwyn hwyluso cadw pellter corfforol bob amser yn y cyfleuster ac yn y maes parcio.
Crefydd, cred a diffyg cred	Nid yw'n debygol o gael effaith.	Ni chesglir data am grefydd y rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon mewn arolygon swyddogol.	Amh
Rhyw / Rhywedd	Fel arfer, mae mwy o fechgyn/dynion yn cymryd rhan mewn chwaraeon na merched/menywod. Gan fod mwy o gyfleusterau'n cael ailagor, bydd mwy o gyfleoedd i bob rhywedd gymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff.	Bydd mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon ac i wneud ymarfer corff yn yr awyr agored yn helpu i liniaru'r effaith ar les meddyliol a chorfforol pobl.	Bydd cyhoeddiadau diweddar gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cyfleusterau gofal plant i ailagor; ailagor ysgolion, galluogi pobl i wneud ymarfer corff gydag un aelwyd arall; a'r bwriad i gael gwared ar y cyfyngiadau 'aros gartref' i gyd yn darparu mynediad at ragor o gyfleoedd i fenywod ymarfer corff.
Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	Bydd newidiadau diweddar i'r rheoliadau sy'n caniatáu i bobl	Amh

		wneud ymarfer corff gyda phobl o aelwyd arall, y bwriad i gael gwared ar y cyfyngiadau ‘aros gartref’ ac ailagor cyrtiau chwaraeon yn darparu mynediad at ragor o gyfleoedd i bobl o bob cyfeiriadedd rhywiol.	
Priodas a phartneriaeth sifil	Heb ganfod effaith wahaniaethol	Wrth i ragor o gyfleusterau agor, dylai cyplau elwa’n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, a ddylai hyrwyddo llesiant.	Amh
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	**Cadarnhaol:** Bydd yn darparu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau ac i ryngweithio’n gymdeithasol. **Cadarnhaol:** Mae ymarfer corff a chwaraeon yn ffactor bwysig o ran cyfrannu at ddatblygiad corfforol, lles seicolegol a chymdeithasol iach plant. Mae	Mae hawliau plant wedi cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad hwn (gweler uchod); a bydd y mesurau sy’n darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn rhagor o weithgareddau yn gadarnhaol i blant ac maent yn cydymffurfio ag erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd	Dim angen lliniaru.

	tystiolaeth yn awgrymu bod plant yng Nghymru yn gwneud llai o ymarfer corff nawr nag yr oeddent cyn y pandemig. Bydd ail-alluogi gweithgareddau yn y maes hwn yn cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn ymarfer corff.	Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Erthyglau 12, 14, 15, 27, 31). Mae'r arolwg 'Coronafeirws a Fi' o tua 23,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn taflu rhywfaint o oleuni ar eu profiadau o bandemig y coronafeirws a'u hymatebion, eu gobeithion a'u pryderon ar gyfer y dyfodol (Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). *Arolwg Chwaraeon Cymru a gynhaliwyd gan Savanta ComRes rhwng 8 a 12 Mai 2020:* *"Mae 26% yn dweud bod eu plant yn gwneud rhagor o weithgareddau ers dechrau cyfyngiadau COVID-19, a 35% yn dweud bod eu plant*	

		yn gwneud llai. Yn gyffredinol, mae hyn yn awgrymu gostyngiad net o 9 pwynt canran."	
Aelwydydd incwm isel	**Cadarnhaol:** Fel arfer, mae cyfleusterau chwaraeon awyr agored wedi'u lleoli bellter cerdded o dai pobl ac maent yn arbennig o bwysig i bobl o aelwydydd incwm isel.	*Arolwg Chwaraeon Cymru a gynhaliwyd gan Savanta ComRes rhwng 8 a 12 Mai 2020:* *"Fodd bynnag, mae amrywiadau sylweddol mewn rhai grwpiau demograffeg. Mae cynnydd net mewn lefelau gweithgarwch ymysg y rheini o gefndir economaidd-gymdeithasol uwch (+7 pwynt canran), ond gostyngiad net ymysg y rheini o gefndir economaidd-gymdeithasol is (-4 pwynt canran)."* *"Mae'n ymddangos bod y gostyngiadau mwyaf ymysg plant o gefndir economaidd-gymdeithasol is (SES ISEL:*	Bydd cyfleusterau chwaraeon awyr agored sy'n lleol ac yn rhad ac am ddim, megis cyrtiau pêl-droed a phêl-fasged, yn fwy hygyrch i aelwydydd ar incwm isel sydd o bosibl yn methu â theithio'n bell o'u cartref. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar ailagor cyfleusterau chwaraeon yn cynghori gwneud darpariaeth fel bod pobl heb fynediad at y Rhyngrwyd yn gallu archebu lle.

		Mwy 23% Llai 36% = -13 pwynt canran SES UCHEL: Mwy 28% Llai 35% = -7 pwynt canran)"	

Deddf Hawliau Dynol

Prif bwrpas y cyfyngiadau yw diogelu'r hawl i fywyd a rhaid ystyried unrhyw newidiadau yn y cyd-destun hwn. Mae'r newidiadau a gynigir yn gwneud cyfraniad at yr hawl i fyw bywyd yn breifat heb ymyrraeth gan y llywodraeth, drwy gael gwared ar gyfyngiadau a allai amharu ar fywyd preifat a theuluol unigolion.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Gallai'r cyfyngiadau ar gyfleusterau chwaraeon awyr agored wrthdaro'n bennaf â'r Erthygl ganlynol:

- **Erthygl 31** – Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Byddai llacio cyfyngiadau cysylltiedig yn galluogi Llywodraeth Cymru i fodloni ei hymrwymiadau dan yr erthygl hon yn benodol. Efallai y bydd rhai buddion hefyd o dan Erthygl 15 (yr hawl i gydgyfarfod), ond bydd y rhain yn cael eu cyfyngu nes bydd rhagor o fesurau llacio o ran ymgynnull yn yr awyr agored, a ddylai fod yn flaenoriaeth ar gyfer mesurau llacio yn y dyfodol.

Y Gymraeg

Mae chwaraeon a hamdden yn rhan annatod o greu'r amodau cymdeithasol lle gall pobl ddefnyddio, datblygu a dysgu'r Gymraeg. Bydd cymunedau Cymraeg a siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol yn elwa o'r gallu i gymdeithasu drwy'r nifer fwy o gyfleoedd a fydd ar gael iddynt yn sgil agor cyfleusterau chwaraeon awyr agored, yn enwedig os yw'r gofyniad 'aros gartref' yn cael ei lacio i 'aros yn lleol'.

Mae Canllawiau "Chwaraeon a Hamdden: canllawiau ar gyfer dychwelyd yn ddiogel" Llywodraeth Cymru yn cynghori sefydliadau i ystyried sut y byddant yn parhau i gydymffurfio â dyletswyddau iaith Gymraeg wrth weithredu unrhyw newidiadau i'w gweithgareddau/gwasanaeth.

ASESIAD O'R MESURAU LLACIO YN YMWNEUD AG YMWELIADAU DAN DO Â CHARTREFI GOFAL

Effaith ar lesiant

Mae tystiolaeth i awgrymu bod y penderfyniad i gyfyngu ar ymweliadau â chartrefi gofal yng Nghymru (ar 23 Mawrth 2020 i ddechrau ac ar adegau gwahanol ers hynny'n ystod y cyfyngiadau symud lleol, y cyfnod atal byr a symud i gyfyngiadau lefel 4) wedi arwain at effeithiau negyddol ar lesiant y rheini mewn cartrefi gofal nad ydynt wedi gallu gweld anwyliaid wyneb yn wyneb. Yr hyn sy'n peri pryder arbennig yw'r effaith y gallai cyfyngiadau ar ymwelwyr fod yn ei chael ar bobl â chlefyd Alzheimer a mathau eraill o ddementia, lle gallai diffyg cyswllt rhyngbersonol arwain at ddirywiad mewn symptomau gwybyddol a lefel uwch o gynhyrfiad, difaterwch ac iselder.[14,15]

Mae ymweliadau awyr agored ac ymweliadau mewn podiau ymweld neu strwythurau tebyg wedi mynd i'r afael yn rhannol â'r materion llesiant a nodwyd yn y dystiolaeth uchod. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y mesurau llacio i alluogi ymweliadau arferol dan do yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant, yn enwedig i'r rheini nad ydynt yn gallu cymryd rhan mewn ymweliadau awyr agored am resymau iechyd. Ar ben hynny, mae ymweliadau awyr agored yn aml yn dibynnu ar y tywydd, felly mae'n bosibl iddynt gael eu canslo ar fyr rybudd, gan beri gofid ychwanegol i breswylwyr ac i anwyliaid. Bydd galluogi ymweliadau dan do yn cael gwared â'r rhwystr hwn.

Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru arolwg ar iechyd a llesiant (1 i 7 Mawrth 2021), a phan ofynnwyd i bobl sut roeddent yn teimlo yn ystod yr wythnos ddiwethaf, dywedodd 22% o bobl eu bod yn teimlo'n unig o bryd i'w gilydd ac roedd 16% yn teimlo'n unig drwy'r amser neu'n aml. Roedd tua 24% o bobl yn teimlo'n ynysig o bryd i'w gilydd, gyda 25% yn dweud eu bod yn teimlo fel hyn drwy'r amser neu'n aml. Dros y cyfnod hwn, roedd 58% yn dweud eu bod yn poeni am eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Effeithiau economaidd

Nid ydym yn credu bod effaith economaidd sylweddol ar gartrefi gofal o ganlyniad i ailgyflwyno ymweliadau dan do. Efallai y bydd rhai goblygiadau o ran adnoddau i gartrefi gofal wrth adolygu eu hasesiadau effaith a'r staff sydd eu hangen i hwyluso ymweliadau mwy rheolaidd.

Mae gwasanaethau cartrefi gofal wedi nodi cynnydd mewn costau ar draws nifer o feysydd o ganlyniad i gynnydd mewn gofynion Cyfarpar Diogelu Personol ac Atal a Rheoli Heintiau a'r penderfyniad i gyfyngu ar ymwelwyr. Mae'r rhain yn cynnwys costau staff ychwanegol, rheoli heintiau'n well, prisiau bwyd uwch a mwy o ddefnydd o TGCh i gadw teuluoedd mewn cysylltiad â'u hanwyliaid. Mae rhai cartrefi gofal

[14] Cymdeithas Alzheimer (5 Mehefin 2020). *Thousands of people with dementia dying or deteriorating – not just from coronavirus as isolation takes its toll.* [Erthygl ar-lein]

[15] Suarez-Gonzalez, A (2020). *Detrimental effects of confinement and isolation in the cognitive and psychological health of people living with dementia during COVID-19: emerging evidence.* LTCcovid, International Long-Term Care Policy Network, CPEC-LSE, 23 Mehefin 2020.

hefyd wedi wynebu colled mewn incwm o ganlyniad i gael mwy o leoedd gwag yn eu cartrefi oherwydd bod yn rhaid cyfyngu ar dderbyniadau newydd mewn rhai achosion er mwyn rheoli'r feirws. Mae'r effaith hon yn cael ei dangos gan gyllid Llywodraeth Cymru a roddwyd i helpu darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Mae £88m o gyllid wedi'i ddosbarthu hyd yma, gyda'r darpariaethau presennol yn ymestyn hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 yn cadarnhau'r gefnogaeth barhaus i ddarparwyr gofal cymdeithasol drwy Gronfa Galedi Awdurdodau Lleol yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol newydd er mwyn helpu i dalu am gostau sy'n codi o ganlyniad i'r pandemig.

Ni ddisgwylir unrhyw effaith economaidd sylweddol o ganlyniad i'r mesurau llacio arfaethedig i ganiatáu ymweliadau dan do. Efallai y bydd angen cynyddu oriau gweithio staff ychydig er mwyn trefnu a hwyluso ymweliadau dan do yn ddiogel, ond ni ddisgwylir i hyn gael effaith sylweddol.

Effeithiau ar yr amgylchedd

Ni nodwyd unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol o ganlyniad i gyfyngiadau yn y maes hwn, ac ni ragwelir unrhyw effeithiau o ganlyniad i'r mesurau llacio arfaethedig.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Mae'r mesurau llacio arfaethedig wedi cael eu nodi fel rhai a fydd yn cael effeithiau cadarnhaol posibl ar unigolion hŷn, y rheini sydd ag anableddau, a phlant.

Grŵp neu nodwedd warchodedig	***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?***	***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)***	***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?***
Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)	**Cadarnhaol:** Gan fod y rhan fwyaf o'r preswylwyr mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn bobl hŷn, bydd y mesurau llacio arfaethedig i alluogi ymweliadau dan do yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y grŵp hwn.	Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi bod yn aelod o'r grŵp rhanddeiliaid ar gyfer ymweliadau â chartrefi gofal, ac mae wedi cefnogi'r mesurau llacio arfaethedig.	Amh
Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)	**Cadarnhaol:** Mae rhai preswylwyr cartrefi gofal wedi methu cymryd rhan mewn ymweliadau yn yr awyr agored neu	Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r Comisiynydd Pobl Hŷn a Fforwm Gofal Cymru (sy'n	

	ymweliadau mewn podiau ymweld oherwydd anableddau difrifol, felly bydd y mesurau llacio arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar y rheini sydd ag anableddau difrifol gan y bydd yn galluogi rhai i ailgysylltu â'u hanwyliaid.	cynrychioli barn darparwyr cartrefi gofal).	
Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl trawsryweddol)	Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol.	Amh	Amh
Beichiogrwydd a mamolaeth	Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol.	Amh	Amh
Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)	Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol.	Amh	Amh
Crefydd, cred a diffyg cred	Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol.	Amh	Amh
Rhyw / Rhywedd	Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol.	Amh	Amh
Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)	Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol.	Amh	Amh
Priodas a phartneriaeth sifil	Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol.	Amh	Amh
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	**Cadarnhaol:** Bydd y mesurau llacio arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi plant, gan y		

	bydd ailddechrau cynnal rhagor o ymweliadau dan do rheolaidd o fudd i'w llesiant, gan alluogi iddynt ailgysylltu'n haws â'u hanwyliaid.		
Aelwydydd incwm isel	Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol	Amh	Amh

Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i gynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Er gwaethaf y cyfyngiadau parhaus ar y cyfyngiadau symud yn gyffredinol, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

Hawliau Dynol	***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?***	***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)***	***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?***
Erthygl 8 Deddf Hawliau Dynol 1998: Parch at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth	**Cadarnhaol:** Mae'r cyfyngiadau presennol yn amlwg yn atal gallu'r rhai sydd mewn gofal i "fwynhau perthynas deuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth". Mae'r mesurau llacio arfaethedig yn cynnig llacio rhywfaint ar y rhwystr hwnnw.	Cyfeiriwyd at Ddeddf Hawliau Dynol 1998.	Amh

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Gallai'r cyfyngiadau presennol ar ganiatáu ymweliadau dan do â phreswylwyr cartrefi gofal, hosbisau a llety diogel wrthdaro â'r erthygl ganlynol, pe na fyddai'r cyfyngiad yn gymesur mwyach:

- **Erthygl 3:** Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn.
- **Erthygl 23:** Mae gan blant anabl hawl i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas ac annibyniaeth, i'r graddau mwyaf posibl, yn ogystal â chwarae rhan

weithredol yn y gymuned. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.

- **Erthygl 27:** Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ymateb i'w hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu teuluoedd na allant fforddio i ddarparu hyn.

Gallai'r mesurau llacio arfaethedig felly ein galluogi i gyflawni ein rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn well.

Y Gymraeg

Nid yw'r mesurau a ddisgrifir uchod yn cael unrhyw effeithiau negyddol o bwys ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal ac i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.